

## Cyngor Cymuned Llanllyfni

### Cofnodion cyfarfod rhithiol Cyngor Cymuned Llanllyfni, a gynhaliwyd dros y wê, Nos Fawrth, 12fed Ionawr 2021 am 7.00 o'r gloch.

#### Agenda

1. **Presenol:** Sian Dafydd (Cadair), Gareth Lloyd Jones, Peter Bridges – Talysarn; Dafydd Thomas – Nebo, Ffion Jones – Nantlle; Barry Bracegirdle, Justin Davies, Erfyl Williams, Heledd Gwilym – Penygroes; Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts – Llanllyfni; Judith Humphreys - Cynghorwyr Sir; Gwadd – Mair Edwards a Bethan Thomas - Grŵp Cynefin.

**Ymddiheuriadau:** Harry Wyn Owen – Talysarn, OP Huws – Llanllyfni, Dylan Herbert – Penygroes a Craig ab Iago - Cynghorwr Sir. Ni dderbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Dilwyn Lloyd, Talysarn.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y gadeiryddes a rhoddwyd croeso arbennig i Heledd Gwilym i'r cyfarfod cyntaf.

2. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir**- Neb yn datgan.

3. **Diweddariad Prosiect Iechyd a Lles Dyffryn Nantlle –** Estynwyd croeso i Mair Edwads a Bethan Thomas o Grŵp Cynefin i'r cyfarfod i roi diweddariad ar Brosiect Iechyd a Lles Dyffryn Nantlle. Esboniwyd beth oedd wedi bod yn mynd ymlaen dros y cyfnod clo ond hefyd dywedwyd fod yr amser yma wedi effeithio ychydig ar amserlen y prosiect. Aethpwyd drwy y cynlluniau er mwyn rhoi syniad o sut fydd y safle yn edrych a beth fydd ar gael yno. Dywedwyd hefyd bod ffin y safle nawr wedi symud ag y bydd nawr yn cynnwys y maes parico gyferbyn a'r co-op. Erbyn hyn y contractwyr wedi clerio y safle. Cyllideb y prosiect yw £25miliwn ac mae llawer o grantiau wedi cael ei ymgeisio amdanynt a grantiau wedi eu derbyn yn barod hefyd. Esboniwyd y mathau gwahanol o bethau eraill fydd yn mynd ymlaen hefyd ee marchnata, prosiect trafndiaeth a mwy o elfenau eraill i'w cysidro wrth symud ymlaen. Yn dilyn y sgwrs rhoddwyd cyfle i'r cynghorwyr holi cwestiynau – gofynodd Dafydd Thomas be fydd yn diwgwydd i drigolion Cartref Plas Gwilym tra bod y gwaith yn mynd ymlaen – esboniwyd y bydd y cartref newydd yn cael ei adeiladu cyn tynnu yr hen safle i lawr. Dywedodd Barry Bracegirdle fod y cyhoedd wedi ei holi pryd fuasai y feddygfa newydd yn barod – esboniwyd bod elfenau o'r prosiect yn gobeithio cael eu cwblhau erbyn 2024 a bod yna ychydig o oedi wedi bod oherwydd y cyfnod clo. Holodd Peter Bridges pryd fydd y prosiect cyfan wedi ei orffen – nid oeddynt yn siwr o hyn eto gan fod yna fwy o waith ymchwil angen ei wneud ynglŷn â rhai elfenau. Gofynodd hefyd os oedd y cynlluniau yn debygol o newid – esboniwyd fod eisiau edrycha r rai agweddau ond dim yn rhagweld newidiadau mawr. Holodd Dafydd Thomas os y bydd deintyddfa ar y safle – mae hyn mewn trafodaeth ar hyn o bryd. Gofynodd Gwyndaf Roberts pa mor bell fydd y feddygfa oddi wrth y maes parcio – maent yn edrych ar hyn er mwyn gwneud yn siwr y bydd ger y feddygfa. Holodd Hefina Roberts os bydd y grisiau sydd yn mynd o'r maes parcio nawr i'r llwybr troed yn aros – ar hyn o bryd ydi. Diolchwyd i Mair a Bethan am eu diweddariad a dywedwyd y byddent yn dod yn nôl eto yn y dyfodol i drafod ymhellach.

4. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod 8fed Rhagfyr 2020 –** Cynnigiodd Barry Bracegirdle ac eiliodd Dafydd Thomas fod y cofnodion yn gywir.

5. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd - Eryr Euraidd Eryri –** wedi derbyn ymateb ag wedi ei basio ymlaen i bawb edrych drosto cyn y cyfarfod. Sian Dafydd yn cynnig i ofyn iddynt roi diweddariad i ni ar beth fu yn mynd ymlaen o hyn, clerco i ymateb i'r ebost a dderbyniwyd. **Man ail-gylchu Penygroes** – rhoddwyd lluniau

ar dudalen gweplyfr y Cyngor Cymuned o'r Llanast a oedd wedi ei adael yn y man yn dilyn y nadolig. Erfyl Williams o'r farn fod yn bwysig cael man fel hyn yn Dyffryn Nantlle. Roedd Peter Bridges wedi gyrru adroddiad o'r ymatebion i'r holiadur a gwyd i bawb gael eu gweld. Aeth Peter drwy y canranau a holodd Sian Dafydd os oedd hyn yn ddigon i gwffio i gadw y safle yma. Cynnigiodd Sian y dylid cael is-bwyllgor i drafod yr ymatebion a sut i symud ymlaen. Cytunodd pawb i hyn. Dafydd Thomas yn teimlo os bydd y man yn cael ei waredu yna bydd yna broblem o bobl yn dympio eu sbwriel ym mhob man yn yr ardal.

**Ymatebion eraill** – bu i'r clerc yrru yr holl ymatebion eraill a dderbynniwyd gan Gyngor Gwynedd i'r cynghorwyr ymlaen llaw i'r cyfarfod hwn ag nid oedd dim yn codi o'r ymatebion.

**6. Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** – Roedd pawb wedi derbyn adroddiad Judith Humphreys ymlaen llaw i'r cyfarfod ag nid oedd dim cwestiynau yn codi o'r adroddiad. Roedd Judith yn codi pwynt fod y giât ar waelod y grisiau ym maes parcio dros y ffordd i'r co-op wedi torri ag yn gofyn caniatad i waredu ar giât – trafodwyd y mater a nid oedd dim gwrthwynebiad i hyn. Diolchwyd i Judith am ei adroddiad. Roedd Craig ab Iago wedi ymddiheuro nad oedd yn medru bod yn bresennol yn y cyfarfod heno ond reodd wedi gofyn i'r clerc basio pethau ymlaen i'r cynghorwyr sef, adrodd ei fod wedi mynychu gweithdy sbwriel Dyffryn Nantlle a byddent yn cyfarfod eto ymhen yr wythnos i drafod cynllun peilot. Hefyd roedd wedi atodi diweddariad o beth oedd yn mynd ymlaen yn Bryn Llys Nebo i bawb edrych drosto. Nid oedd dim yn codi o adroddiad Craig a diolchwyd iddo am y wybodaeth a dderbyniwyd.

**7. Amcanion gwella a llesiant APCE ar gyfer 2021 i 26** – Esboniodd Sian Dafydd beth oedd diben y ddogfen ymgynghori ffurfiol yma gan Parc Cenedlaethol Eryri a holodd os oedd pawb wedi edrych dros yr ebost a yrrwyd iddynt, ag os oedd gan unrhyw un unrhyw sylwadau yna angen eu pasio ymlaen i'r clerc cyn dydd gwener er mwyn cael ymateb yn nôl i'r ebost. Ymunodd Justin Davies â'r cyfarfod.

**8. Taflen ariannol a chyllid** - Copi o'r taflenni wedi eu gyrru i'r cynghorwyr dros ebost ymlaen llaw i'r cyfarfod er mwyn iddynt gael cyfle i edrych drostynt. Rhoddwyd cyfle i godi cwestiynau – holodd Dafydd Thomas os y bydd yna lawer o arian dros ben eleni oherwydd y pandemic – bydd rhaid gweld ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gan nad ydym wedi derbyn popeth i fewn eto. Cytunodd pawb i gymeradwyo y gyllideb.

**9. Cyfarfodydd is-bwyllgor / Cyfarfodydd yn ystod y mis – Goleuadau Nadolig** – Adroddodd Gwyndaf Roberts ei fod wedi cysylltu gyda gwahanol cynghorau tref i holi beth mae nhw yn ei wneud ynglŷn â'u golau nadolig a ymatebodd cyngor tref Porthmadog eu bod yn defnyddio contractwyr o Abermaw ar gyfer y gwaith. Mae Gwyndaf wedi cysylltu gyda'r contractwr ag am gyfarfod wythnos nesaf i weld beth sydd angen ei wneud a rhoi pris ar y gwaith. Gofynnodd Gwyndaf os y buasai unrhyw un o gynghorwyr Penygroes yn fodlon bod yn bresennol hefyd i gyfarfod ar contractwr – cytunodd Barry Bracegirdle i fod yno, felly Gwyndaf i fynd ymlaen i drefnu cyfarfod. Adroddwyd fod un golau ar y Stryd Fawr yn gweithio ag yn cael ei oleuo o Swyddfa Antur Nantlle – yn dilyn trafodaeth penderfynwyd i adael y golau hwn gan nad oes problem gydag o. Holodd Justin Davies beth oedd yn digwydd gyda Dale gan ei fod o wedi dechrau ar y gwaith hefo'r goleuadau. Trafodwyd a cynnigiodd Barry Bracegirdle i Justin drafod hefo Dale a dweud beth sy'n mynd ymlaen a gofyn iddo yntau rhoi pris ar y gwaith hefyd. Eiliodd Erfyl Williams y cynnog hwn a cytunodd pawb. Gadawodd Judith Humphreys y cyfarfod.

**Llwybrau a Mynwentydd** – cafodd is-bwyllgor ei gynnal ar 4ydd Ionawr ac esboniodd Sian Dafydd i'r pwyllgor llawn beth a drafodwyd – Tendr Torri Gwair – argymhell i'r pwyllgor llawn i ymestyn y gontract am flwyddyn gyda codiad o 3% i gyd-fynd a chwyddiant. Cynnigiodd

Dafydd Thomas i fynd ymlaen gyda hyn a eilwyd gan Erfyl Williams. Y clerch i gadarnhau popeth mewn llythyr i'r contractwyr. Ffioedd Claddu – roedd pawb wedi cael copi o'r ffioedd ymlaen llaw i'r cyfarfod llawn hwn Cynnigiodd Barry Bracegirdle i gadw y ffioedd yr un fath am eleni ac eilwyd gan Hefina Roberts. Cytunodd pawb a penderfynwyd edrych arnynt eto yn Ionawr 2022. Gwerthu beddi – trafodwyd y mater a penderfynwyd yn unfrydol na fydd y Cyngor Cymuned yn gwerth beddi ymlaen llaw i neb. Tynnu corlenni Mynwent Gorffwysfa Llanllyfni – Hefina Roberts o'r farn bod angen tynnu y corlenni hyn cyn gynted a phosib gan eu bod yn flêr. Cynnigiodd Sian Dafydd fod y Cyngor yn gofyn i'r contractwyr am bris i'w tynnu. Cytunodd pawb hefo hyn. Coed Celyn Mynwent Eglwys Sant Rhedyw – Harry Owen a OP Huws wedi siarad gyda'r contractwyr am hyn ag maent wedi cynnig torri y coed dan sylw a'u peintio gyda chwynladdwyr. Sian Dafydd i siarad gyda Harry a gweld os yw hyn am ddigwydd.

**10. Materion Pentrefi – Penygroes** – Barry Bracegirdle yn adrodd fod yna dyllau wedi ymddangos o flaen gyli ar Lôn yr Eglwys – y clerch i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd am hyn. Hefyd adroddodd fod dŵr yn casglu mewn pant o flaen y blwch postio yn Trem Yr Wyddfa sydd yn ei gwneud yn anodd i drigolion fynd at y blwch – y clerch i gysylltu gyda Barry Naylor Williams am hyn. Adroddodd Erfyl Williams fod pant wedi ymddangos yn y ffordd o flaen y Co-op – hyn wedi ei godi gyda Cyngor Gwynedd o'r blaen – y clerch i ddilyn fyny ar hyn. Cae Cwtin a Cae Chwarae Penygroes – y clerch i gysylltu gyda Ian Morgan ynglŷn â dod i dorri y tyfiant sydd yn dod drosodd o'r ffordd. Holodd Erfyl Williams os oedd yna son am roi paneli newydd ar y safle bysiau newydd – y clerch i holi Judith Humphreys am hyn. **Llanllyfni** – Adroddodd Gwyndaf Roberts for y gylis yn top y pentref angen eu glanhau – y clerch i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd am hyn. Hefyd y cerrig dal yn y ffordd yn Nebo – y clerch i ddilyn fyny ar hyn i weld beth sydd yn digwydd gan eu bod yn beryglus. **Talysarn** – Adroddodd Peter Bridges fod pant wedi ymddangos ger y safle bysiau wrth Ffordd Stesion a Bryn Celyn a'i fod yn eitha peryg, hefyd nes ymlaen ar y ffordd ger y byngalos mae'r ffordd wedi dirywio – y clerch i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd am hyn. Sian Dafydd wedi derbyn cwynion fod baw cwn yn ofnadwy ar hyd y pentref yn enwedig ar hyd yr hen ffordd, a gofyn os oes modd i'r clerch gysylltu gyda Cyngor Gwynedd i ofyn am fin baw ci i'w roi ar yr hen ffordd a hefyd gofyn iddynt ddod i wagio y biniau sydd yn y pentref yn barod gan eu bod yn llawn erbyn hyn a'u bod angen eu gwagio yn amlach gan fod yna nifer yn fwy o bobl yn cerdded rwan oherwydd y cyfnod clo. **Nebo** – Holodd Dafydd Thomas os fuasi yn bosib i'r clerch ddilyn fyny ar paham fod y goleuadau traffic dal i fod ar Pont Crychddwr ond dim gwaith i weld yn mynd ymlaen yno. Adroddodd Dafydd hefyd fod Pwyllgor Ardal Nebo wedi penderfynu prynu offer er mwyn pigo sbwriel. **Nantlle** – Adroddodd Ffion Jones fod ffens wedi disgyn yn chwarel Dorothea a'i bod yn beryglus i gerddwyr – Ffion am yrru lluniau i'r clerch i basio ymlaen i berchnogion Dorothea er mwyn iddynt ddod yno i'w thrwsio.

**11. Ceisiadau Cynllunio –**

C20/0942/22/LL – Tir ger Maes Dulyn, Penygroes – dim gwrthwynebiad.

C20/0887/22/LL – Siop bapur newydd, 17 Heol y Dwr, Penygroes – dim gwrthwynebiad.

C20/1063/22/AC – Cefn Graianog, Llanllyfni – dim gwrthwynebiad.

C20/1064/22/AC – Cefn Graianog, Llanllyfni – dim gwrthwynebiad.

C20/1065/22/AC – Cefn Graianog, Llanllyfni – dim gwrthwynebiad.

**12. Gohebiaeth** – Cais wedi dod gan bwyllgor Cwt Band Dyffryn Nantlle yn gofyn am lythyr gan y Cyngor Cymuned yn cefnogi eu cais am grant i wneud gwaith yn y cwt oherwydd pydredd sych a gwlyb a pry coed sydd yn broblem ddifrifol yno. Cynnigiodd Sian

Dafydd i gefnogi y cais a cytunodd pawb yn unfrydol. Y clerc i yrru llythyr o gefnogaeth iddynt. Ebst wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Cymuned i ariannu Llyfrgell Penygroes – roedd pawb wedi derbyn copi o'r ebst ymlaen llaw i'r cyfarfod i edrych drosto – trafodwyd a penderfynwyd yn unfrydol i ariannu hyn. Y clerc i gysylltu yn nôl i ategnu hyn. Bocsys Graeanu – Y clerc wedi derbyn ebst gan aelod o'r cyhoedd am focs oedd wedi torri yn Ffordd Clynnog a hefyd yn gofyn am focs ychwanegol ger y bont wrth Wynnstay sydd yn ymuno a Lôn Eifion – y clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Gwynedd ynglŷn â hyn. Hefyd pawb i edrych yn y bocsys yn eu hardal os ydynt angen eu llenwi a gadael i Nia wybod. Sedd wag Ward Penygroes – Cyngor Gwynedd wedi hysbysebu hyn. Y clerc i yrru at Iona Jones i ddiolch iddi am ei gwasanaeth dros y blynyddoedd i'r Cyngor Cymuned.

**13. Llwybrau a Mynwentydd –** dim i'w drafod.

**14. Materion ariannol** - cytunodd pawb i dalu yr isod

- Nia Jones - £25.00 Ffôn a rhyngrwyd Ionawr 2021

- Nia Jones - £14.38 Zoom Ionawr 2021

Trafodwyd efallai y dylid ystyried fod y Cyngor Cymuned yn symud ymlaen ag yn gwneud rhan fwyaf o daliadau sydd angen eu gwneud i wahanol sefydiadau drwy BACS yn hytrach na sieciau. Trafodwyd y mater a penderfynwyd i gario ymlaen gyda hyn, ond bod angen edrych i fewn i beth yw'r rheloau ynglŷn â hyn, ag os fydd popeth yn iawn yna bod Gwyndaf Roberts a Barry Bracegirdle i edrych a cytuno ar daliadau cyn i'r clerc gario ymlaen.

**15. Ceisiadau am arian –** Cytunwyd y dylid cynnal cyfarfod arwahan i drafod y ceisiadau sydd wedi dod i law – dyddiad cau yw 31 Ionawr felly cytunwyd i gynnal cyfarfod nos Lun, 1af Chwefror am 7pm dros Zoom.